OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 No. 2575

# Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Arolygu a Gwybodaeth ar gyfer Awdurdodau Lleol)(Cymru) 2010

*Cyflenwi gwybodaeth i awdurdodau lleol*

**Terfynu cofrestriad neu ei atal dros dro**

**4.** Rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu'r wybodaeth sydd yn Atodlen 2 i'r awdurdod lleol perthnasol—

(a) wrth roi hysbysiad o'u bwriad i ddiddymu cofrestriad person;

(b) wrth ddiddymu cofrestriad person;

(c) wrth atal cofrestriad person dros dro (gan gynnwys achosion pan wnânt hynny ar gais y person cofrestredig);

(ch) wrth dynnu enw person allan o'r gofrestr ar gais person hwnnw; neu

(d) pan fo ynad heddwch, o ganlyniad i gais gan Weinidogion Cymru, yn gwneud gorchymyn o dan adran 34(2) o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 (Amddiffyn plant mewn argyfwng: diddymu cofrestriad).